O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 799 (Cy.79)

GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2009 ("y Rheoliadau Anghenion Personol") a Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 ("y Prif Reoliadau"). Deuant i rym ar 6 Ebrill 2010 at ddibenion rheoliad 6 ac ar 12 Ebrill 2010 at bob diben arall.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r swm sydd ei angen ar gyfer anghenion personol, fel bod y swm wythnosol y mae awdurdodau lleol yng Nghymru i'w ragdybio, yn niffyg amgylchiadau arbennig, y bydd ei angen ar breswylwyr mewn llety a drefnir o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, ar gyfer anghenion personol yn cynyddu i £22.50 yr wythnos.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn dirymu rhannau o'r Rheoliadau Anghenion Personol a'r Prif Reoliadau. Effaith dirymu rheoliad 28A o'r Prif Reoliadau yw y diddymir y system bresennol o gyfrifo incwm tariff drwy gael terfyn cyfalaf isaf ac uwch, fel nad oes bellach ddim ond un terfyn cyfalaf, sydd yn aros yn £22,000.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer cynyddu i £5.75 (£8.60 os oes partner gan y preswylydd) swm unrhyw gredyd cynilion sydd i'w ddiystyru yn unol â pharagraff 28H o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 6 yn gwneud dau ddiwygiad pellach i'r Prif Reoliadau.

Diwygiad canlyniadol yw paragraff (3), a wneir o ganlyniad i ddiwygiadau ("y diwygiadau") yn Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987, a ddaw i rym ar 6 Ebrill 2010. Mae'r ddiystyriaeth enillion ar gyfer hawlwyr sy'n cael premiwm anabledd wedi ei gysylltu ag oedran ymddeol, a chyn i'r diwygiadau ddod i rym byddai'n dod i ben pan gyrhaeddai'r hawlydd 60 oed. O ganlyniad i'r diwygiadau, newidiwyd yr oedran pan delir premiwm anabledd er mwyn cysoni'r hawlogaeth â'r oedran cymwys am gredyd pensiwn y wladwriaeth. Mae rheoliad 6(3) yn gwneud y newidiadau sy'n ofynnol i gysoni'r darpariaethau.

Mae paragraff (5) yn diwygio'r Prif Reoliadau fel bod y cyfalaf a ddiystyrir ar gyfer gwerth mangre a feddiennir gan bartner neu aelod o deulu preswylydd yn gymwys mewn perthynas â phob partner (ac nid yn unig partneriaid sy'n 60 oed a throsodd neu'n analluog) ac o ran aelodau teuluol a pherthnasau eraill, yn gymwys yn unig mewn perthynas â rhai sy'n 60 oed a throsodd neu'n analluog.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 799(Cy.79)

GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2010

Gwnaed *15 Mawrth 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru 16 Mawrth 2010

Yn dod i rym

At ddibenion rheoliad 6 *6 Ebrill 2010*

At bob diben arall *12 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2010.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar—

(a) 6 Ebrill 2010 at ddibenion rheoliad 6; a

(**1**) 1948 p.29. *Gweler* adrannau 35(1) a 64(1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i gael y diffiniadau o "the minister" a "prescribed" yn y drefn honno ac erthygl 2 o Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wasanaethau Cymdeithasol 1968 (O.S. 1968/1699) a drosglwyddodd holl swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a throsglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(b) 12 Ebrill 2010 at bob diben arall.

.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**1**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Symiau y mae eu hangen at anghenion personol

2. Y swm y bydd awdurdod lleol yn rhagdybio y bydd ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 fydd £22.50 yr wythnos.

Dirymu

3. Mae rheoliadau 2, 3, 4, 5 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru)2009(**2**) drwy hyn wedi eu dirymu.

4. Mae rheoliad 28A o'r Prif Reoliadau drwy hyn wedi ei ddirymu.

Cynyddu swm y credyd cynilion sydd i'w ddiystyru

5.—(1) Diwygir y Prif Reoliadau yn unol â'r paragraff canlynol.

Yn Atodlen 3 ym mharagraff 28H**—**

(a) yn is-baragraffau (1) a (2) yn lle'r ffigur "£5.65" rhodder y ffigur "£5.75" ym mhob lle y mae'n ymddangos; a

(b) yn is-baragraffau (3) a (4) yn lle'r ffigur "£8.45" rhodder y ffigur "£8.60" ym mhob lle y mae'n ymddangos.

Diwygiadau eraill i'r Prif Reoliadau

6.—(1) Diwygir y Prif Reoliadau ymhellach yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) ar ôl y geiriau "prospective resident" mewnosoder—

(**1**) O.S. 1992/2977 fel y'i diwygiwyd gan gyfres o offerynnau dilynol.
(**2**) O.S. 2009/632 (Cy..58)

““qualifying age”” has the same meaning as in section 1(6) of the State Pension Credit Act 2002(**1**);

“relative” has the same meaning as in the Income Support Regulations;”(**2**).

(3) Yn Atodlen 2 (symiau sydd i’w diystyru wrth gyfrifo enillion), yn is-baragraff (2) o baragraff 3—

(a) ym mharagraff (b), yn lle “the age of 60” rhodder “the qualifying age” ; a

(b) ym mharagraff (c), yn lle “the age of 60” ym mhob lle y mae’n ymddangos, rhodder “the qualifying age”.

(4) Yn Atodlen 3 (symiau sydd i’w diystyru wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion), yn is-baragraff (6) o baragraff 28H, hepgorer paragraff (b).

(5) Yn Atodlen 4 (cyfalaf sydd i’w ddiystyru), ym mharagraff 2**(3)**, yn lle is-baragraffau (1) a (2) rhodder—

“(1) The value of any premises—

(a) which would be disregarded under paragraph 2 or 4(b) of Schedule 10 to the Income Support Regulations (premises acquired for occupation and premises occupied by a former partner); or

(b) occupied in whole or in part as their home by the resident’s-

(i) partner,

(ii) other family member or relative who is aged over 60 or over or is incapacitated, or

(iii) child”.

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Mawrth 2010

---

(1) 2002 p.16

(2) Mewnosodwyd diffiniad o “relative`” yn yr un termau ar gyfer yr Alban yn unig gan O.S.A. 2009/381, rheoliad 2(1).

(3) Rhoddodd O.S. 1993/964 ddarpariaethau yn lle paragraff 2 ac fe’i diwygiwyd gan O.S. 2009/462.